O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 1356 (Cy. 231)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

Gwnaed	*17 Rhagfyr 2024*
Yn dod i rym	*31 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gan y cynhelir digwyddiad perthnasol, sef Gŵyl Stryd Nos Galan Flynyddol Cymdeithas Digwyddiadau Cymunedol Abergwaun ac Wdig, ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu mewn darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor a chefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 17:00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Rhagfyr 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r A487 Main Street sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â Hamilton Street.

Y darn o'r A487 y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r A487 Ffordd yr Efail.

Y darn o'r A40 y Stryd Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r A487 Ffordd yr Efail.

Y darnau o'r baeau llwytho a leolir gyferbyn â rhif 10 y Wesh, y tu allan i Westy Abergwaun a gyferbyn â'r adeilad a elwir Silver Stoves, y Stryd Fawr.